



CADEIRLAN
LLANELWY
ST ASAPH
CATHEDRAL

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid



Yr Wythfed Sul wedi'r Drindod

2 Awst 2020

Y DOD YNGHYD

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
A'th gadw di yng nghariad Crist.

**Dad nefol, y mae pob calon yn agored i ti.
Ni allwn guddio un dim oddi wrthyt.
Glanha ni â fflam dy Ysbryd Glân
er mwyn inni dy garu a'th addoli'n ffyddlon,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.**

Distawrwydd

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr Hollalluog Dduw,
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
a drugarhao wrthyich, a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Gloria in excelsis

Allegro (♩=104)

Dm C/E F Gm F C/E Dm B♭ Gm F *f* *unsain/unison* Dm C/E F Gm

Clod yn y gor-
Glo - ry in the

5 F C/E Dm F Gm/B♭ F Dm Gm/B♭ Dm C Am

uch - af foed i Dduw_ y nef, heddwch rhwng y bob - loedd
high - est to the God_ of heaven. Peace to all your peo - ple

11 F B♭ C Dm B♭ Am B♭

fo yn ga - dwyn gref; sein - iwn ein gor - fo - ledd yn gy - tun yn
through the earth be given. Migh - ty God and Fa - ther, thanks and praise we

16 F Am B♭ C F/A Dm Gm/B♭ F

awr, llaw - en A - le - lw - ia fo i'r Bre - nin mawr.
bring, sing - ing to the glo - ry of our heav'n - ly King.

21 Dm Am B♭ F Am

At - gy - fod - odd_ Ie - su yn Wa - re - dwr byd, gy - da Sanc - taidd
Je - sus Christ is_ ri - sen God the Fa - ther's Son: with the Ho - ly

26 B♭ C F/A Dm Gm/B♭ F Am Am Em Am

Ys - bryd tri sy'n un o hyd.
Spi - rit, you are Lord a - lone.

31 *mp* Am Am Em Am Am Em Am Am Am

Oen y Pasg a ladd - wyd dros ein pech - od ni, yn dy fawr_ dru -
Lamb once slain for sin - ners, all our guilt_ to bear, show us now_ your

36 Em Am Am_ Em Am *mf* Dm Am

ga - redd gwrn - do ar ein cri. Ti o Grist yw'n go - baith,
mer - cy, now re - ceive_ our prayer. Christ, the world's true Sa - viour,

41 B♭ F Am F B♭ C F/A Dm Gm/B♭

rhown i ti'r mawr - had, ti sy'n eir - iol dros - om ar dde - heu - law'r
high and ho - ly_ one, seat - ed now and reign - ing from your Fa - ther's

46 F *f* Dm C/E F Gm F C/E Dm F Gm/B♭ F

Tad; un - wn yn y mol - iant gy - da'r nef_ ei hun
throne, Lord and God, we praise you, high - est heav'n_ a - dores;

(R. Glyndwr Williams; *Cerddoriaeth*: John Harper, *Cymun y Cymru*)

CYHOEDDI'R GAIR

Colect y Dydd

Hollalluog Arglwydd a thragwyddol Dduw,
deisyfwn arnat gyfarwyddo,
sancteiddio a llywodraethu
ein calonnau a'n cyrff
yn ffyrdd dy gyfreithiau
a gweithredoedd dy orchmynion;
fel trwy dy nodedd mawr,
y cawn ein cadw'n gorff ac enaid
yn awr ac am byth;
trwy ein Harglwydd
a'n Hiachawdwr Iesu Grist
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

Amen.

Darlleniad o Lyfyr Eseia 55: 1–5

‘Dewch i’r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian; prynwch a bwytwch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl. Pam y gwariwch arian am yr hyn nad yw’n fara, a llafurio am yr hyn nad yw’n digoni?’

‘Gwrandewch arnaf yn astud, a chewch fwyta’r hyn sydd dda, a mwynhau danteithion. Gwrandewch arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw. Gwnaf â chwi gyfamod tragwyddol, fy ffyddlondeb sicr i Ddafydd. Edrych, rhois ef yn dyst i’r bobl, yn arweinydd a chyfarwyddwr i’r bobl. Edrych, byddi’n galw ar genedl nid adweini, a bydd cenedl nad yw’n dy adnabod yn rhedeg atat; oherwydd yr Arglwydd dy Dduw, o achos Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu.’

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

Alelwia. Alelwia. Alelwia.

Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn gwrando;
y mae geiriau bywyd tragwyddol gennynt ti.

Alelwia. Alelwia. Alelwia.

Yr Efengyl

Mathew 14: 13–21

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Pan glywodd Iesu am farwolaeth Ioan Fedyddiwr, aeth oddi yno mewn cwch i le unig o'r neilltu. Ond clywodd y tyrfaoedd, a dilynasant ef dros y tir o'r trefi. Pan laniodd Iesu, gwelodd dyrfa fawr, a thosturiodd wrthynt ac iacháu eu cleifion hwy. Fel yr oedd yn nosi daeth ei ddisgyblion ato a dweud, 'Y mae'r lle yma'n unig ac y mae hi eisoes yn hwyr. Gollwng y tyrfaoedd, iddynt fynd i'r pentrefi i brynu bwyd iddynt eu hunain.' Meddai Iesu wrthynt, 'Nid oes rhaid iddynt fynd ymaith. Rhowch chwi rywbeth i'w fwyta iddynt.' Meddent hwy wrtho, 'Nid oes gennym yma ond pum torth a dau bysgodyn.' Meddai yntau, 'Dewch â hwy yma i mi.' Ac wedi gorchymyn i'r tyrfaoedd eistedd ar y glaswellt, cymerodd y pum torth a'r ddau bysgodyn, a chan edrych i fyny i'r nef a bendithio, torrodd y torthau a rhoddodd hwy i'r disgyblion, a'r disgyblion i'r tyrfaoedd. Bwyasant oll a chael digon, a chodasant ddeuddeg basgedaid lawn o'r tameidiau oedd dros ben. Ac yr oedd y rhai oedd yn bwyta tua phum mil o wŷr, heblaw gwragedd a phlant.

Dyma Efengyl yr Arglwydd. **Moliant i ti, O Grist.**

Y Bregeth

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân. Amen.

YR YMBILIAU

Ymateb

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Dad trugarog,
derbyn y gweddïau hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwardwr Iesu Grist. Amen.

Y TANGNEFEDD

Crist yw ein heddwch ni. Cymododd ni â Duw mewn un corff ar y Groes.
Deuwn ynghyd yn ei enw a rhannwn ei dangnefedd. *neu*

Ni yw corff Crist. Mewn un Ysbryd y cawsom i gyd ein bedyddio i un
corff. Gadewch inni, felly, geisio'r pethau sy'n arwain i heddwch, ac sy'n
nerthu ein bywyd fel cymuned. *neu*

Dywedodd ein Harglwydd Iesu Grist, Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac
yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Y DIOLCH

Dathlwn gyda'n gilydd roddion a gras Duw.

**Cymerwn y bara hwn,
cymerwn y gwin hwn
i ddilyn esiampyl Crist
ac i ufuddhau i'w orchymyn.**

Gweddï Ewcharistaidd (4)

Y mae'r Arglwydd yma.

Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd
bob amser ac ym mhob lle yw diolch i ti, Dad Sanctaidd,
hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Gan mai ef yw ein harchoffeiriad mawr,
a'n rhyddhaodd o'n pechodau
ac a'n gwnaeth yn offeiriadaeth frenhinol
yn dy wasanaethu di, ein Duw a'n Tad.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef,
cyhoeddwn ogoniant dy enw
ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw,
Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd.
Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun,
ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno
a syrthio'n brin o'th ogoniant.

Rhoddwn ddiolch i ti
am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni;
fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub,
a'i atgyfodi oddi wrth y meirw
fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn,
dy roddion inni,
fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.
Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara
ac, wedi rhoi diolch,
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud,
Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch:
gwnewch hyn er cof amdanaf.
Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan,
ac, wedi rhoi diolch,
fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud,
Yfwch o hwn bawb,
oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd
a dywelltir drosoch a thros lawer
er maddeuant pechodau:
gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf.

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad,
yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab.
Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus,
a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad,

a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant,
deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti.

Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl,

adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt

â'th ras a'th fendith nefol

a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint

i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab,

ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân,

eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant,

yn oes oesoedd.

Amen.

Distawrwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad,

yr hwn wyt yn y nefoedd,

sancteiddier dy enw,

deled dy deyrnas,

gwneled dy ewyllys;

megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol

a maddau i ni ein dyledion,

fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth;

eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,

a'r gallu, a'r gogoniant,

yn oes oesoedd.

Amen.

Y CYMUN

Yr ydym yn torri'r bara hwn i rannu yng Nghorff Crist.
**A ninnau'n llawer, un corff ydym,
gan ein bod ni oll yn rhannu'r un bara.**

Iesu, Oen Duw:

trugarha wrthym.

Iesu, sy'n dwyn ein pechodau:

trugarha wrthym.

Iesu, iachawdwr y byd:

dyro inni dy dangnefedd.

Iesu yw Oen Duw

sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Gweithred o Gymundeb Ysbrydol

O wynfydedig Arglwydd,

mewn undod â'th bobl ffyddlon ledled y byd,

gerbron pob allor yn dy Eglwys lle dethlir yr Ewcharist,

dymunwn offrymu iti fawl a diolch.

Cyflwynaf i ti fy enaid a'm corff

gan daer ewyllysio bod yn un â thi'n wastadol.

Am na allaf yn awr dy dderbyn yn y Sacrament,

tyred yn ysbrydol i'm calon.

Gwnaf fy hun yn un â thi,

cofleidiaf di â chalon, meddwl ac enaid.

Na foed fyth i ddim dy wahanu di oddi wrthyf;

fel y gallaf fyw a marw yn dy gariad.

Amen.

YR ANFON ALLAN

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef:
ei gariad sy'n dragywydd.

Gweddi ôl-gymun

Cyfnertha i wasanaeth, O Arglwydd,
y dwylo a gymerodd bethau sanctaidd;
bydded i'r clustiau a glywodd dy air
fod yn fyddar i dwrw a dadl;
bydded i'r tafodau a ganodd dy fawl
fod yn rhydd o ddichell;
bydded i'r llygaid a welodd
arwyddion dy gariad
lewyrchu â goleuni gobaith;
a bydded i'r cyrff a borthwyd â'th gorff
gael eu hadfywio â llawnder dy fywyd;
gogoniant i ti am byth. **Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi. **A hefyd gyda thi.**

Y fendith

Bydded i Dduw'r gobaith eich llenwi â phob llawenydd a
thangnefedd wrth gredu, fel trwy nerth yr Ysbryd Glân y
llenwir chwi â gobaith.

A bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd
Yn enw Crist, Amen.

Trefn ar Gyfer y Cymun Bendigaid 2004, mae deunydd y mae wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth hwn yn hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004.